The Royal College of Radiologists

# Ffurflen gydsynio i radiotherapi – bracitherapi cyfradd dogn uchel (ynghyd â radiotherapi pelydr allanol) ar gyfer canser y prostad

Dim ond os yw'r claf dros 16 oed a bod ganddo'r galluedd i gydsynio y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os nad oes gan y claf y galluedd yn gyfreithiol, defnyddiwch ffurflen gydsynio amgen briodol gan eich ysbyty.

## Manylion y claf

**Enw'r claf:** ______________________

**Dyddiad geni:** ______________________

**Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

**Enw'r ysbyty:** ______________________

**Oncolegydd ymgynghorol neu radiograffydd therapiwtig ymgynghorol cyfrifol:** ______________________

**Gofynion arbennig:** e.e. trafnidiaeth, cyfieithydd ar y pryd, cymorth ______________________

## Manylion y radiotherapi

| | |
|---|---|
| **Math o radiotherapi:** | ☐ **Bracitherapi (radiotherapi mewnol)**<br>☐ **Bracitherapi (radiotherapi mewnol) ynghyd â radiotherapi pelydr allanol** |
| **Rhan o'r corff:**<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol) | ☐ **Chwarren brostad/y fesiclau semenol**<br>☐ **Nodau lymff y pelfis**<br>☐ **Arall (nodwch)** ______________________ |
| **Nod y driniaeth:**<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol) | ☐ **Gwellhaol** – i roi'r cyfle gorau i chi wella'n llwyr |
| **Therapi gwrth-ganser systemig cydredol:**<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol) | ☐ **Anesthetig** – bydd anesthetegydd yn esbonio'r weithdrefn a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn yn fanwl i chi |
| **Triniaethau ychwanegol y gallai fod eu hangen:**<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol) | ☐ **Cathetr Wrinol** – caiff tiwb ei osod yn y pidyn/wrethra er mwyn draenio wrin o'r bledren. Fel arfer, caiff y tiwb hwn ei dynnu cyn i chi fynd adref<br>☐ **Trallwysiad Gwaed** – ar achlysuron prin bydd gwaedu a fydd yn gofyn am drallwysiad gwaed |

**Efallai y bydd gennych gwestiynau cyn dechrau eich radiotherapi, neu yn ystod neu ar ôl y driniaeth.**

Rhoddir manylion cyswllt yma ar gyfer unrhyw ymholiadau pellach, pryderon neu os hoffech drafod eich triniaeth ymhellach.

______________________

 © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

**Enw'r claf:** ______________________ **Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

## Sgil-effeithiau cynnar neu dymor byr posibl

**Yn dechrau yn ystod neu'n fuan ar ôl bracitherapi neu radiotherapi ac, fel arfer, yn diflannu o fewn dau i chwe mis ar ôl cwblhau'r driniaeth. Mae'r amlderau yn rhai bras.**

| | |
|---|---|
| **Disgwyliedig** 50%–100% | ☐ **Blinder**<br>☐ **Amlder wrinol** (pasio wrin yn amlach na'r arfer, gan gynnwys gyda'r nos) a/neu **frys wrinol** (awydd sydyn i basio wrin) a/neu **lif arafach na'r arfer**<br>☐ **Poen ysgafn yn y pelfis**<br>☐ **Y perinëwm yn cleisio neu'n chwyddo** (y rhan o'r corff rhwng eich sgrotwm a'ch anws)<br>☐ **Anesmwythder o ganlyniad i orffwys yn y gwely am gyfnod hir**<br>☐ **Gwaed yn yr wrin neu'r semen** (gall ymddangos yn goch tywyll/du)<br>☐ **Problemau wrth geisio cael codiadau digonol** |
| **Cyffredin** 10%–50% | ☐ **Systitis** (poen pan fyddwch yn pasio wrin)<br>☐ **Atal wrin a'r angen i gael cathetr byrdymor neu hunanosod cathetr** – tra bydd y chwyddo yn sefydlogi<br>☐ **Amlder ysgarthu** (ysgarthu'n amlach na'r arfer) a/neu **frys ysgarthu** (awydd sydyn i ysgarthu)<br>☐ **Carthion mwy rhydd** gyda mwy o fwcws neu wynt na'r arfer<br>☐ **Poen/anesmwythder yn y rhefr** – o ganlyniad i lid y rhefr<br>☐ **Colli gwallt lle rhoddir triniaeth** |
| **Llai cyffredin** Llai na 10% | ☐ **Anymataliaeth wrinol** (gan gynnwys gollwng wrin wrth besychu a straenio, mae angen i rai pobl wisgo padiau)<br>☐ **Teimlad nad ydych yn gallu ysgarthu'n llwyr**<br>☐ **Gwaedu o'ch pledren neu'ch coluddyn**<br>☐ **Poen pelfig cymedrol**<br>☐ **Poen ar y croen, y croen yn cosi, pothelli ar y croen a newid yn lliw'r croen** – **croen gwyn/goleuach:** pinc, coch, yn dywyllach na'r ardal o amgylch; **croen brown:** goch neu'n dywyllach na'r ardal o amgylch; **croen du:** yn dywyllach na'r ardal o amgylch, y lliwiau yn newid rhwng melyn/porffor/llwyd |
| **Anghyffredin** Llai nag 1% | ☐ **Gwaedu trwm** – a fydd yn gofyn am driniaeth neu lawdriniaeth bellach, o bosibl<br>☐ **Haint yn y prostad neu'r bledren y bydd angen gwrthfiotigau i'w drin**<br>☐ **Risg o ddatblygu clot gwaed megis thrombosis gwythïen-ddofn neu emboledd pwlmonaidd**<br>☐ **Niwed i'r bledren/mae angen llawdriniaeth bellach ar gyfer y bledren** – gan gynnwys stoma (bag ar yr abdomen) |
| **Gwybodaeth bwysig** | ☐ **Mae posibilrwydd bach na fyddwch yn gallu cael y driniaeth am resymau technegol hyd yn oed ar ôl i'r anesthetig ddechrau. Ar achlysuron prin iawn, gall cymhlethdodau beryglu bywyd. Mae'r risgiau yn wahanol i bob unigolyn. Mae cymhlethdodau a allai beryglu bywyd yn cynnwys y rhai a restrir ar y ffurflen hon ond gall sgil-effeithiau eraill, sy'n anghyffredin iawn, hefyd beryglu bywyd.** |
| **Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth** | |

**Rwy'n cadarnhau** bod y sgil-effeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.

**Blaenlythrennau'r claf** ______

 © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

**Enw'r claf:** ______________________ **Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

## Sgil-effeithiau hwyr neu dymor hir posibl

**Gallant ddigwydd fisoedd neu flynyddoedd lawer ar ôl triniaeth bracitherapi a gallant fod yn barhaol. Mae'r amlderau yn rhai bras. Cyfeirir at nifer o'r sgil-effeithiau hwyr hyn, o'u hystyried ar y cyd, yn aml fel afiechyd ymbelydredd y pelfis.**

| | |
|---|---|
| **Disgwyliedig** 50%–100% | ☐ **Anffrwythlondeb** – Bydd radiotherapi yn effeithio ar eich ffrwythlondeb. Rhowch wybod i ni am eich cynlluniau ar gyfer cael plant a gallwn roi cyngor i chi yn unol â hynny.<br>☐ **Problemau wrth geisio cael codiadau digonol**<br>☐ **Newidiadau i'r alldafliad** – megis llai ohono, ansawdd gwahanol neu waed |
| **Cyffredin** 10%–50% | ☐ **Amlder wrinol yn ystod y dydd/gyda'r nos** (pasio wrin yn amlach na'r arfer) a **brys wrinol** (awydd sydyn i basio wrin)<br>☐ **Colli'r gallu i gael orgasm** |
| **Llai cyffredin** Llai na 10% | ☐ **Culfan wrinol** (culhau eich wrethra y gall fod angen llawdriniaeth i'w drin)<br>☐ **Amlder wrinol/brys wrinol yn ystod y dydd/gyda'r nos lle mae angen llawdriniaeth i helpu'r symptomau** (echdorri'r prostad drwy'r wrethra)<br>☐ **Methu â gwagio'ch pledren yn llwyr neu mae eich pledren yn storio llai o wrin**<br>☐ **Systitis/poen wrth basio wrin** – o ganlyniad i lid y bledren<br>☐ **Anymataliaeth wrinol** (gan gynnwys gollwng wrin wrth besychu a straenio, mae angen i rai pobl wisgo padiau)<br>☐ **Atal wrin** – a all olygu bod angen gosod cathetr wrinol dros dro neu barhaol. Ar achlysuron prin mae angen llawdriniaeth (echdorri drwy'r wrethra) i ddileu'r angen am gathetr hirdymor<br>☐ **Amlder ysgarthu** (ysgarthu'n amlach na'r hyn sy'n arferol i chi)<br>☐ **Brys ysgarthu** (awydd sydyn i ysgarthu)<br>☐ **Carthion mwy rhydd** – gyda mwy o fwcws neu wynt na'r arfer<br>☐ **Poen/anesmwythder yn y rhefr** – gallai hyn effeithio ar eich bywyd rhywiol os byddwch yn cael rhyw rhefrol<br>☐ **Gwaedu o'r bledren neu'r coluddyn**<br>☐ **Anesmwythder ysbeidiol yn yr abdomen** |
| **Anghyffredin** Llai nag 1% | ☐ **Niwed i'r bledren neu'r coluddyn y gall fod angen llawdriniaeth i'w drin** – a achosir gan dwll neu ffistwla (cysylltiad annormal rhwng dwy ran o'ch corff), y coluddyn yn cael ei flocio neu waedu difrifol<br>☐ **Poen hirdymor yn y perinëwm a/neu ben y pidyn**<br>☐ **Canser gwahanol lle rhoddir triniaeth**<br>☐ **Teneuo a/neu doriadau yn y pelfis/asgwrn clun** |
| **Radiotherapi i nodau lymff eich pelfis** | ☐ **Ddim yn gymwys i'm triniaeth**<br>**Llai Cyffredin (Llai na 10%)**<br>☐ **Lymffoedema** – hylif yn cronni yn eich coesau ac o bosibl yn eich sgrotwm<br>**Anghyffredin (Llai nag 1%)**<br>☐ **Camamsugno** – problemau o ran amsugno maetholion<br>☐ **Niwropatheg** – niwed i'r nerfau a allai achosi poen, diffyg teimlad neu wendid yn eich coesau. |
| **Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth** | |

**Rwy'n cadarnhau** bod y sgil-effeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi. | **Blaenlythrennau'r claf** ______


Ewch i www.rcr.ac.uk/RT-consent-forms i weld y fersiwn ddiweddaraf © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

**Enw'r claf:** ______________________ **Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

## Datganiad y gweithiwr iechyd proffesiynol

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

– Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, amcanion bwriadedig y driniaeth hon a'i sgil-effeithiau.
– Rwyf hefyd wedi trafod manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael gan gynnwys dim triniaeth.
– Rwyf wedi trafod unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.

Rhoddwyd taflen wybodaeth i gleifion: ☐ Do / ☐ Naddo – Manylion: ______________________

Rhoddwyd copi o'r ffurflen gydsynio i'r claf: ☐ Do / ☐ Naddo

**Llofnod:** ______________________ **Dyddiad:** ______________________

**Enw:** ______________________ **Teitl swydd:** ______________________

## Datganiad y claf

- Mae nodau a sgil-effeithiau posibl y driniaeth wedi'u hesbonio i mi ac rwyf wedi cael cyfle i drafod triniaeth amgen, ac rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
- Rwy'n deall na ellir gwarantu y bydd unrhyw unigolyn penodol yn rhoi'r radiotherapi. Fodd bynnag, bydd yr unigolyn yn meddu ar arbenigedd priodol.
- Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol sy'n angenrheidiol cyn fy nhriniaeth neu a all fod yn angenrheidiol yn ystod fy nhriniaeth. Gall hyn gynnwys marciau parhaol ar y croen a ffotograffau i helpu i gynllunio a nodi triniaethau.
- Rwy'n cytuno y gall gwybodaeth a gesglir yn ystod fy nhriniaeth, gan gynnwys delweddau a'm cofnodion iechyd, gael eu defnyddio ar gyfer addysg, gwaith archwilio ac ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ddienw. Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

**Ticiwch os yw'n berthnasol**

☐ Rwy'n deall na ddylwn geisio beichiogi plentyn na rhoi sberm nac wyau yn ystod y driniaeth, a byddaf yn trafod â'm honcolegydd pryd y bydd yn ddiogel i mi geisio beichiogi plentyn ar ôl cael radiotherapi.

☐ Rwy'n deall petawn yn parhau i smygu y gallai gael effaith sylweddol ar y sgil-effeithiau y byddaf yn eu profi ac effeithiolrwydd fy nhriniaeth.

☐ Nid oes gennyf reolydd calon na diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD).

**neu**

☐ Mae gennyf reolydd calon a/neu ddiffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD) ac mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u hesbonio i mi.

**Llofnod:** ______________________

**Enw'r claf:** ______________________ **Dyddiad:** ______________________

**Defnydd o Anesthesia Cyffredinol/Sbinol a thawelu triniaethol**

☐ **Rwy'n deall** y caf gyfle i drafod manylion anesthesia ag anesthetydd cyn y driniaeth, oni fydd natur frys fy sefyllfa yn atal hyn rhag digwydd. **Rwy'n deall** mai dim ond os bydd yn angenrheidiol er mwyn achub fy mywyd neu atal niwed difrifol i'm hiechyd y caiff unrhyw driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon ei chyflawni. Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol y gallai fod angen eu cyflawni yn ystod fy nhriniaeth. Rwyf wedi rhestru isod unrhyw driniaethau **nad ydw i'n dymuno iddynt gael eu cyflawni** heb drafodaeth bellach.

______________________

**Llofnod:** ______________________

**Datganiad:**
☐ **cyfieithydd ar y pryd**
☐ **tyst** (lle y bo'n briodol)

☐ Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth yn y ffurflen hon i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd sydd, yn fy marn i, yn ddealladwy iddo.

**neu**

☐ Rwy'n cadarnhau na all y claf lofnodi ond ei fod wedi cydsynio i gael y driniaeth.

**Llofnod:** ______________________

**Enw:** ______________________

**Dyddiad:** ______________________

**Cadarnhad o gydsyniad y claf**

(I'w lofnodi cyn i'r radiotherapi ddechrau)

**Rwy'n cadarnhau** nad oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach ac fy mod am gael y driniaeth.

**Blaenlythrennau'r claf** ______

**Dyddiad:** ______________________

 © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.